CYFRES A9

# amserbeibl

## Storïau o'r Beibl – Safon 2


Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth




Storïau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Genesis 25: 19-34



ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 25: 28

*Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.*


## Stori 1 Jacob yn twyllo'i frawd

Ydych chi'n un o efeilliaid? Neu ydych chi'n nabod gefeilliaid? Weithiau mae'n anodd dweud y gwahaniaeth rhwng gefeilliaid – maen nhw'n edrych mor debyg. Roedd Isaac a Rebeca yn falch iawn pan gawson nhw ddau fachgen bach. Roedd Esau a Jacob yn efeilliaid ond roedden nhw'n wahanol iawn i'w gilydd. Roedd Esau'n flewog iawn a phan dyfodd yn ddyn, roedd wrth ei fodd allan yn hela anifeiliaid. Dydyn ni ddim yn gwybod sut oedd Jacob yn edrych ond roedd yn hapus yn aros gartref o gwmpas y tŷ.




**C Llanwch enwau'r teulu ar y 'goeden deulu'.**

Gwaetha'r modd, doedd e ddim yn deulu perffaith. Roedd un mab yn ffefryn gan y tad a'r mab arall yn ffefryn gan y fam.




8

**C Llanwch y bylchau trwy roi'r llythrennau yn y drefn gywir.**


Roedd Isaac yn caru
__ __ __ __ . **(u s a E)**

Roedd Rebeca yn caru
__ __ __ __ __ . **(b o c a J)**

4

Esau a gafodd ei eni gyntaf, felly roedd ganddo hawliau arbennig; er enghraifft, ef fyddai'n dod yn ben y teulu pan fyddai ei dad yn marw. Yr enw ar yr hawliau arbennig hyn oedd yr enedigaeth-fraint.
Un diwrnod, roedd Jacob yn coginio cawl pan ddaeth Esau i mewn. Roedd eisiau bwyd yn ofnadwy arno. Roedd wedi bod yn hela ac roedd aroglau da ar y cawl!
“Rho gawl i mi, dw i bron â llwgu,” meddai.
Roedd Jacob yn slei. Roedd arno eisiau rhywbeth yn lle'r cawl.
“Fe roddaf i gawl i ti os rhoddi di dy enedigaeth-fraint i mi,” meddai.
Wnaeth Esau ddim meddwl ddwywaith, roedd arno gymaint o eisiau bwyd!
Doedd ei enedigaeth-fraint ddim yn bwysig iawn iddo, beth bynnag.
Doedd Jacob ddim gwell na'i frawd. Fe wnaeth e dwyllo'i frawd i roi ei enedigaeth-fraint iddo.


**C** **Llanwch y geiriau coll yn y swigod siarad.**




5

Weithiu rydyn ni'n gallu bod yn hunanol iawn, fel Esau a Jacob. Ddylen ni ddim bod felly.

**C** **Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau hyn i weld beth mae'r Beibl yn galw bod yn ddrwg.**



_____ _____ _____ _____ _____

3

Rydyn ni i gyd wedi gwneud pethau drwg ac mae angen i Dduw faddau i ni os ydyn ni am fynd i'r Nefoedd. Ydych chi wedi credu yn yr Arglwydd Iesu a fu farw fel y gall Duw faddau i ni?